

addoli mewn arddull fywiog a ffres. Bydd y pwyslais ar gyflwyno neges y Beibl a dysgu am yr Efengyl.

Bydd y gweithgareddau'n cychwyn am 10.30 o'r gloch y bore ac yn dod i ben am 4.00 o'r gloch y pwnn.

Daw rhagor o fanylion yn y man.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Mehefin 14: Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Reuben Roberts, Bontnewydd.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Mehefin 9: Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mehefin 14: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Cynhelir oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mehefin 14: Ni fydd oedfa.

Y mis nesaf - Deiniolen

Mehefin 7

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul

Mehefin 14

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Reuben Roberts

Mehefin 21

10.00 a.m. - Y Gweinidog
5.00 p.m. - Y Gweinidog

BETHLEHEM

Dydd Mawrth, Mehefin 9: Cynhelir Llan Llanast yn y festri rhwng 4.00 a 6.00 o'r gloch.

Dydd Iau, Mehefin 11: Cynhelir 'Bwrlwm' am 2.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mehefin 14: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL

Pnawn Mawrth, Mehefin 11: Pwyllgor y Diaconiaid.

Nos Wener, Mehefin 12: Cynhelir 'Dwylo Pysur' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Mehefin 14: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Geraint Roberts, Porthaethwy.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Mehefin 12: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.



Y mis nesaf - Llanberis

Mehefin 7

10.00 a.m. - Cyfarfod Gweddi
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr W M Roberts

Mehefin 14

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Mehefin 21

10.00 a.m. - Oedfa
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Euros W Jones



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 641: Dydd Sul, 07 Mehefin, 2015

Caniad Kennedy

Dwi ddim yn economegydd, ond dwi'n meddwl mod i'n gallu gwneud syms. Ym mis Medi 2013, cafodd busnes y Post Brenhinol ei breifateiddio pan werthwyd 70% o gyfranddaliadau'r cwmni, gyda'r 30% oedd yn weddill yn aros yn nwylo'r Llywodraeth. O fewn dim, datgelwyd i'r cyfranddaliadau gael eu tanbriso, a hynny'n golygu colled enfawr i'r pwrs cyhoeddus (£1.2 biliwn, yn ôl a adroddwyd gan y Swyddfa Archwilio Cyhoeddus yn fuan wedyn, er bod rhai'n mynnu bod y golled yn nes at £1.4 biliwn). Ychydig ddyddiau'n ôl, cyhoeddodd Canghellor Llywodraeth San Steffan ei fwriad i werthu gweddill cyfranddaliadau'r Llywodraeth am £1.5biliwn. I bob pwrpas, felly, y gwir elw o werthu'r cyfranddaliadau hyn fydd £0.3 biliwn (neu hyd yn oed £0.1 biliwn). Waeth i George Osborne eu rhoi nhw am ddim i bwy bynnag sydd eu heisiau! Ond nid y golled ariannol yw'r pryder mwyaf i filoedd o bobl, ond yr ofn y bydd cwmni cwbl breifat yn ymrthod â'r cyfrifoldeb a fu ar y Post Brenhinol i gynnig yr un gwasanaeth i bawb, boed gymunedau dinesig neu gymunedau gwledig, llai poblog. Gall £100 miliwn (os mai dyna yw £0.1 biliwn!) fod yn fargen hynod o wael i'n cymunedau gwledig ni.

Go brin fod yr un ohonom yn cofio mai pleidleisio o blaid preifateiddio'r Post Brenhinol a wnaeth Charles Kennedy, cyn-aelod Seneddol a chyn-arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol, a fu farw

mor annisgwyl yr wythnos ddiwethaf. (Mewn gwirionedd, roedd ef o blaid gwerthu hyd at 90% o'r cwmni.) Ond beth bynnag am hynny; bydd llawer yn cofio safiad y gwleidydd poblogaidd hwn ar ddau fater arall. Bum mlynedd yn ôl, gwrthwynebai fwriad ei blaid i ffurfio llywodraeth glymbleidiol, gan ddadlau y byddai'r Toriaid yn barod iawn i elwa ar draul y Rhyddfrydwyr. Roedd canlyniad Etholiad Cyffredinol y mis diwethaf yn cadarnhau ei ofnau! Ond ddeuddeng mlynedd yn ôl, yn 2003, y gwnaeth ei safiad dewraf oll trwy wrthwynebu clymblaid arall, sef bwriad Tony Blair i ymuno â'r Unol Daleithiau i ymosod ar Irac. Roedd Charles Kennedy yn un o'r lleisiau prin o fewn y pleidiau Prydeinig a wrthwynebai'r rhyfel hwnnw; ac mae'r safiad egwyddorol hwnnw'n glod a choffadwriaeth arbennig heddiw i wleidydd galluog dros ben.

Ym marwolaeth Charles Kennedy, fe'n hatgoffwyd o'r newydd, mewn modd eithriadol o drist, am y drwg mawr y gall gordefnyddio alcohol ei wneud i bobl. Ac yn anuniongyrchol hefyd fe'n hatgoffir o'r gwaith da (sy'n cael ei gefnogi gan sawl enwad ac eglwys) y mae Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill ac Ystafell Fyw Caerdydd yn ei wneud o helpu pobl sy'n dioddef oherwydd y gor-ddefnydd hwn. Gwn y byddai Prif Weithredwr y ddau gorff hyn, Wynford Elis Owen, yn gwerthfawrogi gweddiau eglwysig ac unigolion dros y gwaith da hwn.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Bydd Cyfarfod Gweddi yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr Myfyr Roberts.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 9.30 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch. Ni fydd oedfa heno.

Gwasanaethir yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Parchg W R Williams, Y Felinheli.

Diolch

Diolch yn fawr i'r rhai sy'n arwain yr oedfaon o fewn yr Ofalaeth heddiw. Estynnwn groeso cynnes i chi unwaith eto.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu'r Parchedig Gwilym Parry, Llanrug a fu farw ddydd Sadwrn diwethaf, Mai 30 ym Mhlas Garnedd, Llanberis, yn 94 mlwydd oed. Bu'n weinidog gyda'r Annibynwyr yn Llanfairfechan a Phenmaenmawr am flynyddoedd. Bydd amryw ohonoch yn ei gofio'n gwasanaethu rhai o eglwysi'r Ofalaeth, ac yn cofio hefyd fod yn ei gwmni yn y Cyfarfod Chwarter a'i Bwyllgor Gwaith. Cynhelir ei angladd yn Amlosgfa Bangor am 11.00 o'r gloch ddydd Mawrth, Mehefin 9.

Llan Llanast

Ddydd Mawrth, Mehefin 9, rhwng 4.00 a 6.00 o'r gloch cynhelir Llan Llanast yn festri Capel Bethlehem, Talybont.

Trefnwyd y cyfarfod hwn gan Jennifer Roberts, swyddog plant ac ieuencid yr Eglwys yng Nghymru, ac estynnwyd gwahoddiad trwy'r ysgol leol i blant y pentref a'u teuluoedd. Mae croeso i aelodau'r capel ddod yno i ymuno â'r gweithgaredd.

Dyma'r tro cyntaf i Llan Llanast gael ei gynnal ym Methlehem. Mae'r enw yn ddiethr i'r mwyafrif ohonoch, mae'n debyg. Felly, beth yw Llan Llanast?

Am wn i fod gan bawb ohonoch syniad go lew beth yw Ysgol Sul a Chlwb Plant ac Oedfa a hyd yn oed Glwb Crefft. Rhowch y cwbl yn y pair a'u cymysgu, ac mae'n debyg mai rhywbeth felly yw Llan Llanast! Ymdrech ydyw i helpu pobl newydd i fod yn gartrefol mewn capel neu eglwys. Y syniad yw bod plant a phobl o bob oed yn gwneud gwaith crefft syml sydd wedi ei seilio ar stori neu thema o'r Beibl, ac yn cael

rhywbeth i'w fwyta gyda'i gilydd cyn gorffen gyda 'dathliad' neu gyfnod byr o addoli.

Cychwynnodd Llan Llanast (neu *Messy Church*) mewn eglwys Anglicanaidd yn Portsmouth tua 12 mlynedd yn ôl. O'r cychwyn, ymdrech i wneud yr eglwys yn berthnasol a deniadol i bobl nad oedd byth yn dod i oedfa ydoedd; ymdrech i gyrraedd pobl oedd ar ymylon bywyd yr eglwys neu y tu allan iddi yn llwyr. Ac arwyddocad y gair 'messy' oedd bod yr eglwys honno'n ymbalfalu rywsut am ffordd o gyrraedd y bobl hynny: chwilio am y ffordd o wneud hynny oedd hi, heb honni bod ganddi'r ateb taclus, perffaith.

Ers hynny, mae llawer o eglwysi wedi rhoi cynnig ar wneud peth tebyg gan ddefnyddio'r deunydd a baratowyd gan y bobl hynny yn Portsmouth. Mae un o lyfrau Llan Llanast wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg, ac fe gyhoeddir rhagor o ddeunydd cyn bo hir. Nid yw'r bobl a gychwynnodd Llan Llanast yn honni eu bod yn gwneud unrhyw beth gwreiddiol na chlyfar iawn. Mae llawer o'r hyn a wneir yn cael ei wneud yn barod mewn aml i eglwys ac ysgol Sul, mae'n debyg.

Edrychwn ymlaen at groesawu'r plant, a'u teuluoedd gobeithio, ddydd Mawrth. Gweddiwch dros y cyfarfod, dros y plant a'r teuluoedd a ddaw yno, a thros bawb a fydd yn helpu i arwain y cyfarfod.

Cwpan Efe

Daeth noson Cwpan Efe yn noson go bwysig i blant yr Ysgolion Sul ers sawl blwyddyn, ac mae dyddiad y noson wedi ei osod ar gyfer eleni.

Cynhelir y gystadleuaeth bel droed 5 yr ochr hon ar gae Ysgol Gynradd Llanrug nos Iau, Mehefin 25.

Mae'r gystadleuaeth ar gyfer ysgolion Sul cylch Efe, ond mae croeso cynnes i ysgolion Sul o gylch ehangach i gymryd

rhan. Plant blynyddoedd ysgol 3, 4, 5 a 6 fydd yn cymryd rhan eleni eto. Ceir rhagor o fanylion gan Andrew Settartree (07929 916 181).

Cwpan CIC

Cystadleuaeth boblogaidd arall a drefnir bob blwyddyn gan Trobwynt yw Cwpan CIC, i dimau pel droed 5-yr ochr oed uwchradd (Blwyddyn 7-10). Bydd croeso i dimau o bob rhan o'r Gogledd.

Caiff ei chynnal eleni, fel y llynedd, yn Abererch, ar dir Canolfan Gristnogol Tŷ Nant nos Iau, Gorffennaf 9.

Cafwyd noson lwyddiannus iawn yno'r llynedd ac edrychwn ymlaen at noson yr un mor llwyddiannus eleni.

Andrew sy'n trefnu'r gystadleuaeth hon hefyd gan ei fod yn parhau i weithio i Trobwynt yn ogystal ag i Efe.

Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr

Cynhelir Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg eleni yn Nant Gwrtheyrn o ddydd Iau, Gorffennaf 2 hyd ddydd Sadwrn, Gorffennaf 4.

Hwn fydd y tro cyntaf i'r Annibynwyr, neu unrhyw enwad arall o ran hynny, gynnal eu cyfarfodydd blynyddol yn Nant Gwrtheyrn.

Diwrnod Bach i'r Brenin Mawr

Daw Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr i ben gyda 'Diwrnod Bach i'r Brenin Mawr', a gynhelir yn Nant Gwrtheyrn ddydd Sadwrn, Gorffennaf 4.

Diwrnod o addoliad a mwynhad fydd hwn i blant, ieuencid a phobl o bob oed. Bydd yno weithgareddau arbennig ar gyfer y gwahanol oeddrannau, a chyfle i